

Blwch post: CITB : <CA@citb.co.uk>
Pwnc: Croeso i'r Cynllun Cenhadon STEM



Cefnogi Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Helo,

'Bydd angen 216,800 o weithwyr newydd ar y sector Adeiladu erbyn 2025 er mwyn bodloni'r galw disgwylidig'

Rhagolwg y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu (CSN) Mehefin 2021

Er bod hyn yn newyddion gwych, mae ein diwydiant yn wynebu prinder sgiliau enfawr ym mhob maes, ar y safle ac oddi ar y safle, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol mewn swyddfeydd. Fel rhan o'n hymgyrch i fynd i'r afael â'r prinder hwn, mae CITB, gyda chefnogaeth Cyngor Arwain y Diwydiant Adeiladu (CLC), wedi ffurfio partneriaeth â'r rhaglen Cenhadon STEM, gan greu cynllun sy'n benodol i'r diwydiant i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithwyr adeiladu. Croeso i **Gynllun Cenhadon STEM Am Adeiladu**.

Mae pynciau STEM yn sail i'r byd rydym yn byw ynddo. Gyda dros 32,000 o genhadon, mae'r rhwydwaith STEM yn ymgysylltu â phobl ifanc mewn ysgolion ar draws y DU, gan wneud Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg yn berthnasol ar gyfer y gweithle. Mae'r cynllun newydd hwn, sy'n cael ei gefnogi gan **Am Adeiladu**, wedi cael ei greu'n benodol i ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfa ym maes Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

Pwy all fod yn Gennad STEM Am Adeiladu?

Cenhadon STEM Am Adeiladu fydd wyneb ein diwydiant gan rannu eu profiadau i ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfa ym maes Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig. Gallen nhw fod yn brentis ar eu hail flwyddyn yn egluro eu profiad o brentisiaeth ym maes adeiladu, gweithiwr crefft yn siarad am ddiwrnod o waith, neu reolwr safle yn rhannu hanes eu gyrfa, o ddechrau fel labrwr i reoli prosiectau ar raddfa fawr. Gallan nhw weithio ar safle adeiladu neu mewn swyddfa, mewn nifer o rolau amrywiol, bob un ohonyn nhw'n defnyddio sgiliau sy'n gysylltiedig â STEM.

Beth yw'r manteision?

Mae **cenhadon** yn cael cyfle i wneud y canlynol:

- Ysbrydoli pobl ifanc i ddilyn gyrfa yn y diwydiant adeiladu
- Trosglwyddo eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u brwdfrydedd i ddarpar weithwyr newydd, er mwyn helpu i gau'r bwlch sgiliau sy'n ein hwynebu
- Gwella eu datblygiad personol a rhoi rhywbeth yn ôl i'r rheini sy'n dechrau arni
- Cael hyfforddiant i wella eu datblygiad proffesiynol
- Datblygu sgiliau cyflwyno, a meithrin eu hyder

Mae Cenhadon STEM Am Adeiladu yn cael eu cefnogi'n llawn gyda deunyddiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus, hyfforddiant ac adnoddau sy'n benodol i'r diwydiant. Mae bod yn Gennad hefyd yn edrych yn dda ar eich CV.

Mae **cyflogwyr** yn cael cyfle i wneud y canlynol:

- Dangos cefnogaeth i'n diwydiant
- Cefnogi datblygiad eu staff, hybu ymgysylltiad staff a gwella bodlonrwydd mewn swydd
- Cynyddu eu gweithgareddau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Hyrwyddo eu rhan yn y rhaglen ar eu gwefan
- Helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithwyr adeiladu proffesiynol – yn lleol

Gall cenhadon ddewis rhannu gwybodaeth am eu gweithgareddau gyda'u cyflogwr, gan eu galluogi i rannu'r gwaith gwych maen nhw'n ei wneud ynghyd â'u canlyniadau.

Cefnogi ein diwydiant

Y cenhadon yn aml yw'r cysylltiad cyntaf â'r diwydiant adeiladu i lawer o bobl a gall gael effaith enfawr ar benderfyniadau o ran gyrfaedd yn y dyfodol. Maen nhw'n ymgysylltu â phobl ifanc ar draws y DU, mewn ysgolion a gweithleoedd i ffeiriau gyrfaedd a digwyddiadau, gan rannu'r cyfleoedd gwych sydd ar gael yn y diwydiant. Maen nhw'n gallu cynnal sgysiau, arddangosfeydd, ymweliadau â safleoedd adeiladu, gwersi dosbarth neu brofiadau ymarferol na fydd pobl ifanc fel arfer yn eu cael drwy'r system addysg.

Mae'r gwaith gwirfoddol y mae Cenhadon STEM Am Adeiladu yn ei wneud yn helpu CITB ac Am Adeiladu i ddenu, hysbysu ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ystyried gyrfa yn ein sector, sy'n hanfodol os ydyn ni am leihau'r prinder sgiliau.

Cymryd rhan

Os ydych chi'n frwd dros Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, ac yn fodlon rhannu eich profiadau â phobl eraill, beth am ystyried bod yn Gennad STEM Am Adeiladu? Mae'n hawdd iawn

CAM 1

Cwblhewch broses gofrestru'r Cenhadon STEM

CAM 2

Ychwanegwch **Gynllun Cenhadon STEM Am Adeiladu** at eich proffil

Barod? Gwylwch ein [canllaw Cam wrth Gam](#) i ddysgu mwy

Ydych chi eisoes yn Gennad STEM?

Yna, mae angen i chi gwblhau **CAM 2** ac ychwanegu **Cynllun Cenhadon STEM Am Adeiladu** at eich proffil. Gwylwch fideo 2 am [ganllaw Cam wrth Gam](#) i ddysgu sut i fynd ati.

Cefnogi ein Cenhadon

Mae [Am Adeiladu](#) yn cynnig cyfoeth o wybodaeth i gefnogi **Cenhadon STEM Am Adeiladu**, o ddatblygiad personol a chyfleoedd rhwydweithio, i wobrau a chydnyddiaeth. Rydyn ni'n darparu amrywiaeth o ddeunyddiau cyfarwyddo ac adnoddau addysgol diddorol y gellir eu darparu wyneb yn wyneb neu o bell, gan gynnwys deunyddiau hyfforddi, cyflwyniadau, fideos a phopeth sydd ei angen ar ein Cenhadon i ymgysylltu â phobl ifanc a'u hysbrydoli.

Rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n ymuno â ni i hyrwyddo'r diwydiant Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, os oes angen unrhyw gymorth arnoch chi neu os hoffech chi gael sgwrs ag aelod o'n tîm, anfonwch e-bost at CA@citb.co.uk a byddwn ni'n cysylltu â chi.

Diolch yn fawr

Tîm Am Adeiladu CITB
